# Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar yr 2il o Orffennaf 2020 am 7:30 o'r gloch drwy fynychu o bell

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Robert Davies, Dai Evans, Helen Evans, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan ac Iwan Thomas.
Denfer Morgan (Clerc).

**311 Personol ac Ymddiheuriad**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Alwen Thomas a Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Fe estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol a dymunodd gwellhâd buan i'r Cynghorydd Ray Williams.

**312 Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol 2019**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 3ydd Mai 2018 fel rhai cywir.

**313 Ethol Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd John Lumley yn Gadeirydd y Cyngor am y ddwy flynedd fwrdeistrefol 2019-20 a 2020-21.

**314 Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd**

Gwnaed y Datganiad o Dderbyn y Swydd gan Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd John Lumley.

**315 Ethol Is-gadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Iwan Thomas yn Is-gadeirydd y Cyngor am y ddwy flynedd fwrdeistrefol 2019-20 a 2020-21.

**316 Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-gadeirydd**

Gwnaed y Datganiad o Dderbyn y Swydd gan Is-Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Iwan Thomas.

**317 <u>Ethol Cynrychiolwyr I Un Llais Cymru</u>**

**Etholwyd** y Cynghorwyr Gwyndaf Morgan a John Lumley i gynrychioli'r Cyngor ar Un Llais Cymru.

**318 Rheolau Sefydlog**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen i fabwysiadu y fersiwn mwyaf diweddar o'r Rheolau Sefydlog safonol i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog fel a gyflwynwyd gan y Clerc.

**319 Rheoliadau Cyllidol**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen i fabwysiadu y fersiwn mwyaf diweddar o'r Rheoliadau Cyllidol safonol i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rheoliadau Cyllidol fel a gyflwynwyd gan y Clerc.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7:45 y.h.